Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

Jeremy Miles AS
Y Cwnsler Cyffredinol

22 Hydref 2020

Annwyl ddau

**Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru**

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar **12 Hydref 2020** i drafod materion sy'n berthnasol i'n hymchwiliad i **Wneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru**.

Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn y wybodaeth bellach y gwnaethoch gytuno i'w rhannu â ni ym mharagraffau **11** a **94** o'r trawsgrifiad: sef, eich Rhaglen Waith sy'n amlinellu'r pum ffrwd waith barhaus i weithredu argymhellion Comisiwn Thomas a chadarnhad o'r wybodaeth a'r data sydd ar gael ynghylch perfformiad llysoedd Cymru o gymharu â'r llysoedd yn Lloegr, gan gynnwys asesiad Llywodraeth Cymru o'r hyn a welir.

Rydym hefyd yn croesawu eich bwriad i rannu dangosfwrdd o ddata ar gyfiawnder yng Nghymru yn ehangach maes o law (paragraffau **73 a 74** o'r trawsgrifiad) a byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ôl y digwydd.

Ni wnaethom drafod rhai materion yn ystod y sesiwn, ac felly byddem yn croesawu eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

1. Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch effaith pandemig COVID-19 ar ddarparu cyfiawnder yng Nghymru?

2. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd am y broses o gydweithio â Llywodraeth y DU er mwyn rheoli adferiad y system gyfiawnder yn dilyn y pandemig?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

3. Yn wyneb y sylwadau a wnaed gan randdeiliaid cyfiawnder yn adroddiad Canolfan Llywodraethiant Cymru, 'Justice at the Jagged Edge in Wales' – sef na allwch chi graffu ar yr hyn na wyddoch sy'n digwydd – sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cyhoedd a'r Senedd yn ymwybodol o waith Llywodraeth Cymru ym maes cyfiawnder?

4. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd am ei hymgysylltiad â Gweinidogion ac adrannau Llywodraeth y DU, ynghyd â chyrff cyfiawnder heb eu datganoli ar wella'r modd y sicrheir cyfiawnder yng Nghymru?

5. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar wella tryloywder ar wariant cyffredinol ar y system gyfiawnder yng Nghymru?

6. Sut fydd Llywodraeth Cymru yn adrodd ynghylch ei gwariant ar gyfiawnder, ac yn galluogi'r Senedd i ystyried y gwariant hwn fel rhan o'r gwaith craffu ar y gyllideb?

7. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i farn Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru y dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru gael statws tebyg i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, ac na ddylai hynny aros am gwblhau gwaith Comisiwn y Gyfraith?

8. Sut y mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn monitro hygyrchedd Tribiwnlysoedd Cymru, gan gynnwys cydraddoldebau, y defnydd o'r Gymraeg a phrofiad ymgyfreithwyr drostynt eu hunain?

9. Sut y mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn monitro effaith pandemig COVID-19 ar berfformiad a hygyrchedd Tribiwnlysoedd Cymru? A fydd data'n cael eu cyhoeddi ar gynnal gwrandawiadau o bell?

10. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i baratoi Tribiwnlysoedd Cymru ar gyfer yr adferiad yn dilyn COVID-19?

Byddwn yn ddiolchgar o dderbyn y wybodaeth bellach, a'ch ymateb i'r cwestiynau ychwanegol hyn, cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English